Cynffon i'r Cangarŵ

gwers

Amser maith yn ôl doedd gan y cangarŵ ddim cynffon. Byddai pob cangarŵ bryd hynny yn cerdded ar hyd y wlad heb gynffon. Ond os nad oedd gan y cangarŵ gynffon roedd ganddo ddigon o blant. Yn wir, roedd rhai o'r anifeiliaid eraill i gyd yn genfigennus yn enwedig yr anifeiliaid nad oedd ganddyn nhw blant.

Un diwrnod daeth yr arth Coala i ymweld â'r cangarŵ.

"Cangarŵ" meddai, "mae gen ti a'th wraig wyth o blant bach dela erioed. Gai i bedwar o'r plant? Does gen i ddim un plentyn."

Roedd y Cangarŵ wedi dychryn pan glywodd yr hyn oedd gan yr Arth Coala i'w ddweud. "Na'n wir", meddai, "mae fy ngwraig a minnau'n caru ein plant, bob un ohonyn nhw."

"Gai i dri ohonyn nhw? Mi wnai i addo gofalu amdanyn nhw", meddai'r Arth Coala.

"Na ydi'r ateb unwaith eto", meddai'r cangarŵ yn benderfynol.

"Beth am roi un o'th blant i mi?" plediodd yr arth Coala unwaith eto.

"Na'n bendant" oedd ateb y cangarŵ unwaith eto. "Mi rydan ni'n caru pob un o'n plant fesul un."

"Reit" meddai'r arth Coala, "gan nad wyt ti am roi un o'r plant i mi, yna mi fydd rhaid i mi ddwyn un ohonyn nhw." Rhuthrodd tuag at un o'r plant a chythru ynddo. Rhedodd yn gyflym a'r cangarŵ yn ei bawennau. Roedd y cangarŵ a'i wraig ar ei sodlau. Dyma'r Cangarŵ yn cael gafael yn y cangarŵ bach a dechreuodd dynnu a thynnu. Digwyddodd rhywbeth rhyfedd. Roedd pen ôl y cangarŵ bach yn tyfu'n hirach ac yn hirach ac yn hirach.

Dechreuodd mam y cangarŵ bach dynnu a thynnu a thynnu. Yna daeth ei frodyr a'i chwiorydd i ddechrau tynnu a thynnu a thynnu. Ac felly y buo nhw am oriau yn tynnu a thynnu a thynnu. Ond roedd yr arth Coala'n dal yn dynn, dynn.

Ond aeth pethau'n drech na'r Arth Coala a gollyngodd ei gafael yn y cangarŵ bach. Syrthiodd y cangarŵ bach ar lawr.
"Wyt ti'n iawn?", gofynnodd y tad iddo.
"Wyt ti'n iawn?", gofynnodd y fam iddo.
"Wyt ti'n iawn?", gofynnodd ei frodyr a'i chwiorydd iddo fesul un.
Trodd y cangarŵ bach i edrych ar ei ben ôl. "Edrychwch" meddai mewn syndod, "mae gen i gynffon hir."
Dechreuodd neidio o gwmpas, ond roedd yn gallu neidio'n well efo'i gynffon hir. A byth ers hynny mae gan pob cangarŵ gynffon hir sy'n eu helpu i neidio o gwmpas.

"Diolch i Ti, O Dduw, am rieni sy'n gofalu amdanaf bod dydd. Amen"

- Sut fuasech chi'n disgrifio'r Arth Coala?
- Sut rieni oedd rhieni y cangarŵ bach?

Y blaidd barus

Caredigrwydd / Amynedd / Gonestrwydd

Unwaith, roedd dyn yn byw ar ei ben ei hun yn y pentref. Dyn caredig iawn ydoedd. Byddai adar ac anifeiliaid o gwmpas y pentref yn galw i weld y dyn caredig. Byddai yntau yn sgwrsio efo'r adar a'r anifeiliaid ac yn rhoi bwyd iddyn nhw. Ond roedd ganddo un ffrind arbennig. Byddai hwnnw yn dod heibio bob awr ginio. Pwy oedd y ffrind arbennig hwn tybed? Blaidd! Ie blaidd! Bob dydd byddai'r dyn caredig yn rhoi pryd o fwyd i'r blaidd.

Un diwrnod roedd y dyn caredig wedi paratoi cinio pan glywodd sŵn cwynfanus o'r caeau cyfagos. Aeth allan o'r tŷ ar frys, gan adael y bwyd ar y bwrdd. Aeth i chwilio beth oedd yn gwneud y sŵn cwynfanus. Daeth y blaidd heibio'r tŷ yn ôl ei arfer. Aeth i mewn i chwilio am y dyn caredig. Aeth i bob ystafell yn y tŷ ond doedd yna neb yn unman. Galwodd arno ond doedd neb yn ateb. Aeth i'r gegin fach a dyna lle roedd y cinio wedi ei baratoi ar y bwrdd. "Ym... ym mae hwn yn edrych yn flasus iawn," meddai wrtho'i hun. "Mi ydw i bron a'i fwyta ar un llowciad."

Edrychodd o'i gwmpas. Aeth allan i'r ardd ond doedd dim golwg o'r dyn caredig yn unman. Aeth yn ôl i'r gegin fach. Edrychodd eilwaith ar y bwyd blasus ar y bwrdd.

"Beth wnâi?" gofynnodd y blaidd iddo'i hun. "Ddylwn i fwyta'r bwyd blasus yma? Ynteu ddylwn i aros nes bydd y dyn caredig wedi dychwelyd?"

Bu'n pendroni am ychydig. Aeth allan i'r drws unwaith eto ond doedd dim golwg o neb yn unman. Rhedodd yn syth i'r gegin fach ac ymhen dim roedd wedi llowcio'r bwyd i gyd. Rhedodd allan drwy'r drws, i'r ardd, ar draws y caeau ac i fyny'r bryn i'w gartref.

Pan ddychwelodd y dyn caredig gwyddai yn iawn beth oedd wedi digwydd. Roedd y blaidd barus wedi bod yno ac wedi bwyta'i ginio i gyd – bob tamaid. Doedd dim briwsionyn ar ôl.